

Drwy e-bost yn unig

Emma Corbett, Niras Ltd. EMC@niras.com

Cc Rosie Kelly, Ystâd y Goron. rosie.kelly@thecrownestate.co.uk

27 Mawrth 2015

Annwyl Emma,

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o Gynllun y Rownd Drwyddedu ar gyfer Mwynau Morol:
Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol.**

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol o Rownd Drwyddedu Ystâd y Goron ar gyfer Mwynau Morol (y Cynllun Mwynau). Ein pwrpas yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella'n gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

Caiff sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru eu gwneud yng nghyd-destun ein rôl fel Corff Cadwraeth Natur Statudol dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd ac fel y'u diwygiwyd ymhellach gan baragraff 189 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013), ac fel cynghorydd Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru a'i dyfroedd arfordirol.

Caiff y sylwadau canlynol eu gwneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff cynghori'n unig, ac nid ydynt yn lleihau effaith y cyngor y gallem ei ddarparu wrth i'r Cynllun Mwynau gael ei weithredu, gan gynnwys unrhyw asesiadau haen is o brosiectau mwynau unigol neu unrhyw benderfyniadau y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru eu gwneud fel Awdurdod Trwyddedu dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 fel y'i diwygiwyd.

Sylwadau cyffredinol ar yr 'Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol'


1. Rydym eisoes wedi darparu sylwadau ar yr egwyddorion y dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd eu dilyn ac ar adroddiad yr asesiad sgrinio. Dylai'r sylwadau a wnaed gennym ar yr Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol gael eu darllen ar y cyd â'r sylwadau hynny a gyflwynwyd i chi ar 20 Hydref 2014 ynghylch egwyddorion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ar 9 Ionawr 2015 ynghylch adroddiad yr asesiad sgrinio.
2. Rydym o'r farn, yn gyffredinol, bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad Priodol wedi'u llunio mewn modd cadarn a gofalus er mwyn adnabod y nodweddion hynny sy'n perthyn i safleoedd Ewropeaidd a rhyngwladol yng Nghymru, y gallai'r cynllun effeithio arnynt. Cyhyd â bod y materion a nodir yn ein sylwadau isod yn cael sylw boddhaol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â chanfyddiadau'r Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol.
3. Bydd unrhyw gasgliad sy'n nodi na fydd y cynllun yn cael unrhyw effaith andwyol yn dibynnu'n helaeth iawn ar fesurau lliniaru y bydd yn rhaid eu gweithredu ar lefel prosiectau er mwyn osgoi rhywogaethau a chynefinoedd sensitif. Bydd yn bwysig bod y wybodaeth am waith asesu a gyflawnwyd gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun, a'r mesurau lliniaru a nodwyd, yn cael eu rhannu'n effeithiol â datblygwyr ochr yn ochr â chafeat sy'n nodi y bydd angen gwaith asesu mwy manwl ar lefel prosiectau ac y bydd gwybodaeth sy'n ychwanegol at

yr hyn a gyflwynwyd yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofynnol ar gyfer hynny. Felly, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r ymrwymiad i gynhyrchu Adroddiadau Cryno ynghylch Safleoedd a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i ganfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun gael eu rhannu'n effeithiol â gweithredwyr.

4. Isod rydym wedi tynnu sylw at nifer o faterion a godwyd gennym ynghylch egwyddorion drafft Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a'r asesiad sgrinio, nad yw'r Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol wedi mynd i'r afael â nhw, ac rydym wedi gwneud nifer o sylwadau eraill y bwriedir iddynt wella cadernid cyffredinol yr Asesiad Priodol. Yn gryno, mae'r materion hynny'n ymwneud â'r gorgyffwrdd rhwng ffin Safle Tendro 8 a ffin ACA Môr Hafren a'r posibilrwydd y gallai gwaith carthu agregau effeithio'n uniongyrchol ar nodweddion yr ACA o ran cynefin, a'r angen i esbonio'n llawnach y rhesymeg y tu ôl i'r asesiad o effeithiau ar bysgod sy'n mudo ac effeithiau cyfunol eraill.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y sylwadau hyn, mae croeso i chi gysylltu â'n Rheolwr Cyngor ynghylch Diwydiannau Morol, Andy Hill, yn y lle cyntaf drwy ebostio andrew.hill@naturalresourceswales.gov.uk neu ffonio 0300 0653808. Hoffem nodi hefyd y dylai ymgynghoriadau ffurfiol ynghylch unrhyw gynllun yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw adroddiadau ôl-mabwysiadu, gael eu hanfon at y Tîm Asesiadau Strategol yn Cyfoeth Naturiol Cymru: strategic.assessment@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Iwan Jones', with a horizontal line underneath.

Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy

Atodiad 1. Sylwadau manwl ar yr Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol

Y posibilrwydd y gallai cynefinoedd Atodiad 1 ddiodeff effeithiau andwyol

1. Mae ffin Safle Tendro 8 yn gorgyffwrdd â ffin ACA Môr Hafren. Felly, mae'n bosibl y byddai rhannau o ACA Môr Hafren yn cael eu cynnwys yn y Parth Effaith Sylfaenol ac, oherwydd hynny, y gallai blaen yr offer carthu ar lefel gwely'r môr effeithio'n uniongyrchol arnynt.
2. Er hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r casgliad cyffredinol, sef na fydd gwaith archwilio neu gynhyrchu'n cael unrhyw effaith sylfaenol ar nodweddion cynefinoedd Atodiad 1 ACA Môr Hafren. Fodd bynnag, mae'r casgliadau ynghylch effeithiau'r cynllun yn seiliedig ar fabwysiadu'r mesurau lliniaru a nodir yn Adran 9.4. O safbwynt cynefinoedd benthig ym Môr Hafren, mae'r casgliadau yn dibynnu'n helaeth iawn ar sicrhau'n benodol nad yw gweithgareddau'n esgor ar effeithiau sylfaenol (ffisegol uniongyrchol) ar gynefinoedd Atodiad 1 (e.e. *Sabellaria species* sy'n creu riffiau) drwy sicrhau nad yw gwaith archwilio a chynhyrchu'n digwydd lle ceir nodweddion riffiau. Dylai'r gofyniad hwn gael ei nodi'n gliriach fel un o'r mesurau lliniaru y mae'n rhaid eu gweithredu ar lefel prosiectau ar gyfer gwaith archwilio a chynhyrchu. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer gwaith cynhyrchu y caiff yr angen i weithredu mesurau o'r fath ei nodi (Adran 9.5).
3. O safbwynt pwynt cysylltiedig ac oherwydd yr amodau arbennig a geir ym Môr Hafren, dylid nodi'n glir bod *Sabellaria alveolata* yn creu riffiau yn rhannau islanwol Môr Hafren a thu hwnt. Ar hyn o bryd, dim ond at y ffaith bod *S. spinulosa* yn creu riffiau yn rhannau islanwol afon Hafren y mae'r adroddiad yn cyfeirio (Adran 5.4.13). Hyd y gwyddom nid yw riffiau *S. spinulosa* i'w gweld yn ACA Môr Hafren, er bod riffiau'r rhywogaeth wedi'u cofnodi ymhellach allan ym Môr Hafren.

Y posibilrwydd y gallai pysgod ddiodeff effeithiau andwyol

4. Nid ydym yn cytuno y dylai'r effeithiau ar ACA Afon Gwy ac ACA Afon Wysg gael eu hepgor o rychwant yr Asesiad Priodol. Ceir ansicrwydd ynghylch llwybrau mudo'r rhywogaethau pysgod sy'n nodweddion y safleoedd hyn, ond gallai'r llwybrau mudo hynny fod yn croesi Safle Tendro 8. Fodd bynnag, yn amodol ar ein sylwadau isod ynghylch y rhesymeg dros gael lleugylch effaith 4km, byddai'n briodol i'r Asesiad Priodol ddiystyru effeithiau posibl.
5. Yn ein sylwadau ar Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, bu i ni ofyn am gael gweld tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r rhesymeg dros weithredu'r Lleugylch Effaith Eilaid 1km. Rydym yn falch o weld bod y lleugylch effaith a weithredir wedi'i ymestyn i 4km, ond bydd yn bwysig cyflwyno'r rhesymeg dros y lleugylch 4km er hynny fel bod Ystâd y Goron, wrth benderfynu'n derfynol ynghylch yr Asesiad Priodol, yn gallu bod yn siŵr bod yr asesiad sgrinio a'r Asesiad Priodol dilynol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
6. Mae pysgodfeydd eraill wedi'u heithrio o rychwant gwaith asesu pellach yn yr Asesiad Priodol. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ynghylch egwyddorion Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ym mis Hydref 2014, mae nifer o bysgodfeydd yng Nghymru wedi bod yn destun asesiadau fel cynlluniau neu brosiectau a dylid ystyried effeithiau'r rhain o'u cyfuno â'r Cynllun Mwynau.
7. Ymddengys na roddwyd unrhyw ystyriaeth i effeithiau'r Cynllun Mwynau ar bysgod, o'u cyfuno â rhaglenni eraill carthu agregau a sylweddau nad ydynt yn agregau ym Môr Hafren.
8. Yn ogystal, dylai'r asesiad o effeithiau cyfunol ystyried y cynnig sy'n ymwneud â Phorthladd Amlwytho Bryste.